CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWE

**CYNLLUNIAU LLAWN**
Deddf Adeiladu 1984
Rheoliadau Adeiladu 2010

LABC CYMRU

**Is-adran Rheoli Adeiladau,**
**Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Cyfarwyddiaeth Lleoedd**
**Ystafell G.4.2, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,**
**Abertawe SA1 3SN**
**FFÔN: (01792) 635636 FFACS: (01792) 635644**
**E-bost: bcon@swansea.gov.uk**

*Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan y person sy'n bwriadu cynnal gwaith adeiladu neu gan asiant. Os yw'r ffurflen yn anghyfarwydd, dylech ddarllen y nodiadau arweiniad amgaeëdig neu ymgynghori â'r swyddfa a nod uchod. Teipiwch neu defnyddiwch briflythrennau bras.*

**1** **MANYLION YR YMGEISYDD** (gweler nodyn 1)

Teitl:______________ Enwau Llawn:______________________________

Cyfenw:______________________________

Enw Llawn y Busnes: ______________________________

Cyfeiriad:______________________________

Côd Post:______________ Ffôn:______________ Ffacs: ______________

Cyfeiriad e-bost:______________________________

**2** **MANYLION YR ASIANT** (os yw'n berthnasol)

Enw:______________________________

Cyfeiriad:______________________________

Côd Post:______________ Ffôn:______________ Ffacs:______________

Cyfeiriad e-bost:______________________________

**3** **LLEOLIAD YR ADEILAD LLE GWNEIR Y GWAITH**

Cyfeiriad:______________________________

Côd Post:______________ Ffôn:______________ Ffacs:______________

**4** **GWAITH ARFAETHEDIG**

Disgrifiad:______________________________

**5** **DEFNYDD YR ADEILAD**

1. Os adeilad neu estyniad newydd ydyw, nodwch y defnydd arfaethedig:______________________________

2. Os adeilad presennol ydyw, nodwch y defnydd presennol:______________________________

3. Ydy'r adeilad yn adeilad y mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol iddo, neu y bydd yn berthnasol iddo, ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu (gwelwer nodyn YDY/NAC YDY

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformat amgen. Os oes angen help arnoch i lenwi unrhyw ffurflenni, gofynnwch i ni.

6 **GWAITH TRYDANOL (yn berthnasol i anheddau'n unig)**

Nodwch p'un o'r dulliau canlynol yr ydych yn bwriadu eu defnyddio er mwyn dangos y caiff yr holl waith gyda gosodiadau trydan sefydlog sy'n ymwneud â'r cais hwn ei ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi yn unol â BS 7671 : 2001 (fel y'i diwygiwyd).

**a) Cynllun Pobl Cymwys**

Ni chodir tâl ychwanegol (gweler rhestr y cynlluniau cymeradwy yn y nodyn arweiniad atodedig). ☐

**b) Tystysgrif BS 7671**

Bydd trydanwr cymwysedig yn ardystio bod y gwaith wedi cael ei ddylunio, ei osod, ei archwilio a'i brofi yn unol â BS 7671 ac yn darparu Tystysgrif Gosodiad Trydanol ynghyd â rhaglenni archwilio a phrofi i fodloni safon BS 7671. (DS: Codir tâl ychwanegol am y dewis hwn. Cysylltwch â'r swyddfa i gael gwybod y ffi briodol.) ☐

**c) Corff Rheoli Adeiladau**

Gyda'r dewis hwn, bydd trydanwr a gyflogir gan y cyngor yn archwilio, yn profi ac yn ardystio'r gosodiad trydanol. Sylwer: (DS: Codir tâl ychwanegol am y dewis hwn. Cysylltwch â'r swyddfa i gael gwybod y ffi briodol.) ☐

**NODYN**

Mae ffïoedd sy'n ymwneud â dewisiadau b) ac c) uchod yn daladwy wrth gyflwyno'r cais Rheoliadau Adeiladu.

Os dewisir a) pan gyflwynir y cais ac yna newidir i ddewis b) neu c) yn ddiweddarach, bydd y ffi ychwanegol berthnasol yn daladwy. Yn ogystal, gallai hyn gynnwys agor gwaith sydd wedi'u gwblhau i'w archwilio.

7 **Os yw eich cais am gartref neu fflat newydd neu addasiad i greu'r un peth, bydd ang allyriadau carbon (TER a DER) a Thystysgrif Perfformiad Ynni (TPY) arnoch, ynghyd â chyf effeithlonrwydd dŵr. Os hoffech chi i ni wneud y cyfrifo, ffoniwch yr is-adran ar y drosodd.**

**FFÏOEDD: Gweler y nodyn arweiniad perthnasol**

1. Gwaith Tabl A: Nodwch gyfanswm yr anheddau - __________
2. Gwaith Tabl B: Os yw'r gwaith yn cynnwys ffenestri newydd, ticiwch y blwch ☐
3. Gwaith Tabl B: Os yw'r gwaith yn ymwneud â thrydan, gweler adran 7
4. Gwaith Tabl B neu C: Nodwch amcangyfrif cost y gwaith ac eithrio TAW: £________ neu, os yw'r gwaith yn cynnwys estyniad, nodwch arwynebedd y llawr: ___________$m^2$

Ffi Gynllunio: £___________ ynghyd â TAW £___________

Ffi Drydanol: £___________ ynghyd â TAW £___________

Cyfanswm: £_____________

8 **Datganiad**

Rhoddir yr hysbysiad hwn mewn perthynas â'r gwaith adeiladu fel a ddisgrifir, ac fe'i cyflwynir yn u Rheoliad 12(2) ynghyd â'r ffi briodol. Rwy'n deall y bydd rhagor o ffioedd yn daladwy ar ôl yr a cyntaf gan yr awdurdod lleol. Rwy'n cytuno i gymeradwyaeth amodol os yw'n briodol.

Enw: ________________________ Llofnod: ______________________ Dyddiad: ________________

# NODIADAU ARWEINIOL AR GYFER CYNLLUNIAU LLAWN

## Nodiadau

1. Yr ymgeisydd yw'r person y gwneir y gwaith ar ei ran, e.e. perchennog yr adeilad.

2. Dylid cwblhau un copi o'r hysbysiad hwn a'i gyflwyno gyda chopïau dyblyg o gynlluniau a manylion yn unol â darpariaethau Rheoliad Adeiladu 14.

Os bydd Rhan B (Diogelwch Tân) yn gosod gofyniad mewn perthynas â gwaith adeiladu, dylid cyflwyno dau gopi arall o gynlluniau sy'n arddangos cydymffurfio â'r gofynion.

3. Heblaw am rai eithriadau, codir ffi i gyflwyno cynlluniau llawn sy'n daladwy gan y person a fydd yn gyfrifol am wneud y gwaith neu y gwneir y gwaith ar ei ran. Mae ffïoedd yn daladwy mewn dau gam. Mae'n rhaid anfon y ffi gyntaf wrth gyflwyno'r cynlluniau. Mae'r ail ffi'n daliad unigol fesul adeilad, i dalu am gostau pob ymweliad safle ac ymgynghoriad a allai fod yn angenrheidiol nes cwblhau'r gwaith yn foddhaol.

Mae Tabl A yn rhagnodi'r cynllun a'r ffïoedd archwilio sy'n daladwy ar gyfer tai bach.
Mae Tabl A yn rhagnodi'r ffïoedd sy'n daladwy ar gyfer pob estyniad cartref, garej, ffenest newydd, gosodiad trydan etc.
Mae Tabl C yn ymdrin â'r holl waith arall.

Mae'r ffi briodol yn ddibynnol ar y math o waith sy'n arfaethedig. Amlinellir y graddfeydd ffïoedd a'r dulliau cyfrifo yn y Nodiadau Arweiniol ar gyfer Ffïoedd sydd ar gael ar gais.

4. Heblaw am rai darpariaethau penodol Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, mae hawl gan berchnogion a deiliaid mangreoedd i'w draeniau dŵr arwyneb a'u carthffosydd gael eu cysylltu â'r carthffosydd cyhoeddus, os byddant ar gael. Mae trefniadau arbennig yn berthnasol i ollyngiadau elifol masnachol. Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno i'r fath gysylltiad gael ei wneud roi o leiaf 21 diwrnod o rybudd i'r awdurdod priodol.

5. Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol i bob mangre ac eithrio:

‘Anheddau teuluoedd sengl ac addasiadau ac estyniadau iddynt’

6. Mae'r nodiadau hyn ar gyfer arweiniad cyffredinol yn unig; ceir y manylion am adneuo cynlluniau yn Rheoliad 14 Rheoliadau Adeiladu 2010 ac, o ran ffïoedd, yn Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdod Lleol) 2010.

7. Atgoffir y rhai sydd am gynnal gwaith adeiladu neu newid defnydd adeilad yn sylweddol y gallai fod angen caniatâd o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

8. Ceir mwy o wybodaeth a chyngor ynglŷn â'r rheoliadau adeiladu a materion cynllunio gan y cyngor.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Adran 91 Deddf Adeiladu 1984. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. *Byddwn yn rhannu'ch data'n ddiogel â'r trydydd partïon canlynol yn unol â'n cytundeb rhannu data â hwy: Enwi a Rhifo Strydoedd, Cynllunio, Priffyrdd a Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.*

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel y bo'n briodol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio eich data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.